

Y Nadolig Diflanedig?



Ar ymweliad â thref fawr yn ddiweddar, fe ddois ar draws siop pop-yp enfawr mewn stad siopau – hen adeilad siop gadwyn oedd wedi mynd i'r wal wedi'i throï'n siop dros dro ar gyfer gwerthu addurniadau Nadolig. Roedd yr arwydd tu allan yn honni mai hon oedd y siop addurniadau a chardiau Nadolig mwyaf yn y wlad, ac wedi mentro i mewn, hawdd oedd credu hynny. Roedd 'na lonydd hir o nwyddau Nadolig o bob math: rhesi o gardiau Nadolig, goleuadau lliwgar, addurniadau ar gyfer tu mewn a'r tu allan i'ch cartref, addurniadau ar gyfer addurno eich anifeiliaid anwes, i addurno'r car, heb sôn am bob math o wisgoedd Nadolig ar bob un thema bosib.

Ac eto, ddim yn hollol. Oherwydd, er bod dewis anhygoel o bob math o addurniadau ar gael, doedd dim byd yn sôn am wir ystyr y Nadolig i'w weld yn unlle. Roedd 'na filoedd o becynnau o gardiau Nadolig: cerdyn ar gyfer pawb a cherdyn i siwtio pob oed, o bob lliw a llun. Roedd digon o luniau Siôn Corn, robin goch, eira, clychau, ayyb, ond dim un cerdyn ag unrhyw arlliw o neges y Nadolig. Doedd dim un preseb, dim un gŵr doeth, dim Joseff na Mair, na'r baban Iesu chwaith, i'w weld yn unlle. Wrth edrych ar yr addurniadau, eto, roedd

digon o bethau lliwgar a deniadol – yn symud, yn goleuo ac yn fflachio. Roedd sawl Siôn Corn, carw, trên y Nadolig ayyb, ond dim un olygfa'r geni yn unlle. Er bod 'na filoedd o eitemau, doedd dim byd i'n hatgoffa am neges wreiddiol y Nadolig. Dwn i ddim oedd hyn yn fwrriadol ai peidio. Ond weithiau mae ein hymdrechion i fod yn gynhwysol, a'n hawydd i beidio tramgwyddo yn golygu ein bod yn colli'r neges yn llwyr.

Bydd llawer cyngor tref a dinas yn fwrriadol yn osgoi'r gair Nadolig yn llwyr, a chyfeirir at Winterfest - Gŵyl y Gaeaf fel gŵyl niwtral, rhag pechu neb. Gwyddom am ysgolion sydd wedi cael gwared ar ddrama'r Geni a gwasanaethau carolau am yr un rheswm. Bydd holl hysbysebion yr ŵyl ar y teledu'n canolbwyntio ar y dathlu a'r gloddesta, ond heb sôn o gwbl am y rheswm dros y dathlu.

Mewn arolwg gan Scripture Union rai blynyddoedd yn ôl, dangoswyd mai ychydig iawn o stori'r Nadolig sy'n wybyddus i lawer o blant erbyn hyn, gyda mwyn credau mai stori chwedlonol yw hi, yn hytrach na hanes go iawn. Yng nghyfnod yr Adfent, wrth inni ac wrth inni roi ein trefniadau Nadolig yn eu lle unwaith yn rhagor eleni, tybed be fedrwn NI ei wneud i sicrhau nad yw

gwir neges y Nadolig yn 'ddiflanedig' yn ein cymunedau? Dyma rai syniadau:

Ceisio bod yn bresenoldeb gweledol yn y gymuned

Beth am osod golygfa'r geni mewn bocs o flaen y capel, a'i goleuo os yw'n bosib, er mwyn iddi fod yn weledol gyda'r nos?

Beth am roi baner o flaen y capel yn nodi mai gŵyl Gristnogol yw'r Nadolig? Mae gan y Cyngor Ysgolion Sul faneri ar werth ar gyfer tu allan a'r tu mewn i'r capel.

A fyddai'n bosib defnyddio gofod cymunedol arall – parc chwarae, neuadd bentref, cornel mewn tafarn leol – i greu murlun, arddangosfa neu bosteri sy'n ein hatgoffa am y Nadolig?

Os oes ffair Nadolig yn yr ardal, beth am fynychu gyda stondin? Byddai bod allan ar y stryd yn rhannu diodydd poeth a siocledi yn ffordd o feithrin sgwrs gyda phobl yn y gymuned. Byddai'r Cyngor Ysgolion Sul yn hapus i gyflenwi llyfrau ar ddychwel neu werthu i chi ar gyfer hyn.

Beth am drefnu oedfa garolau allan yn yr awyr agored, o flaen coeden Nadolig, efallai, neu hyd yn oed fynd o gwmpas yr ardal gan ymweld â chartrefi lle mae aelodau hyn yn byw a fyddai'n gwerthfawrogi clywed carolau?

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Y Nadolig Diflanedig?

(parhad o dudalen 1)

Cyfleoedd i rannu neges yr efengyl

Bydd llawer o eglwysi'n dewis rhannu tractiau a llyfrynau Nadoligaidd o gwmpas yr ardal, i dynnu sylw yn ogystal at wasanaethau arbennig. Ceir sawl cylchgrawn lliwgar, yn ogystal â llyfryn *Pam y Nadolig?* sydd ar gael i'w prynu'n rhad er mwyn eu rhannu am ddim.

Mae'r Nadolig yn gyfle gwych i wahodd y gymuned i mewn i'n hadeiladau hefyd – i ganu carolau, bwyta mins peis ac yfed diod o win cynnes. Mae'n gyfle hefyd i wirioni ar y plant yn cyflwyno'r ddrama flynyddol, neu wasanaeth Cristingl gyda'r orenau. Pa well ffordd o gyhoeddi i'r byd ein bod ar agor ac yn barod i groesawu gwahanol, hysbysebwcw nhw'n dda, gan ddangos yn glir fod 'na groeso i bawb.

Paratoi'n bersonol

Mae cyfnod yr Adfent yn gyfnod i ninnau baratoi'n ysbrydol ar gyfer y Nadolig. Mae llawer o adnoddau ar gael i helpu gyda hyn. Eleni mae cwrs astudio cyfnod yr Adfent wedi ei baratoi gan yr Eglwys yng Nghymru sy'n cynnwys chwe ffilm ac astudiaethau. Ewch i wefan yr Eglwys yng Nghymru i'w lawrlwytho, yn rhad ac am ddim.

Cyfarch a rhannu

Bydd llawer ohonom yn dal i gyfarch ein gilydd, boed drwy bostio cardiau Nadolig neu â chyfarchion ar y We. Mi fydda i'n gresynu bob blwyddyn wrth edrych dros y cardiau Nadolig sy'n cyrraedd ein tŷ ni gan deulu a ffrindiau. Mae'n syndod llwyr i mi fod Cristnogion cenedlaetholgar yn gyrru cardiau Nadolig Saesneg â lluniau robin goch, a'r rheini wedi eu prynu yn M&S, na fydd o fudd i unrhyw elusen hyd yn oed. Mae digon o ddewis o gardiau Cymraeg ar gael, a'r rheini hefyd yn gardiau Cristnogol â lluniau Beiblaidd ac adnoddau ar y tu mewn. Bydd y rhain gan amlaf hefyd er budd elusennau lleol! Wrth edrych dros ein cardiau ni y llynedd, sylwais fod 90% o'r cardiau a gyrhaeddodd ein tŷ ni heb yr un cyfeiriad o gwbl at wir neges y Nadolig. Beth am ymdrech arbennig eleni gan ddarllenwyr *Cenn@d* i yrru cardiau Cristnogol Cymraeg i bawb. A chofiwch ofyn am stamp Nadolig â llun cadeirlan Bangor, un o'r lluniau ar stampiau Nadolig y Post Brenhinol eleni.

Yn yr un modd, beth am rannu neges y Nadolig dros dudalennau ein cyfryngau cymdeithasol? Mae digon o adnoddau, poster i ffilmiau byr ar gael i ni eu rhannu ag eraill. Beth am lenwi'r cyfryngau cymdeithasol â newyddion da geni Crist dros gyfnod yr Adfent eleni?

Mae llawer o lyfrau Nadolig newydd wedi eu cyhoeddi eleni eto, ac ar gael o'ch siopau Cymraeg lleol. Dyma anrhegion gan rieni, gan deidiau a neiniau sy'n addas i wyrion ac wyresau ym mhob man. A beth am i ni fel eglwysi brynu llyfrynau lliwgar i blant ein hysgol leol - mae dewis eang o lyfrau ar gael o 50c i fyny. A byddai Siôn Corn partïon Nadolig ein hysgolion Sul yn hapus iawn o wybod bod y plant yn derbyn llyfr Cristnogol yn anrheg ganddo, yn hytrach na bocs siocledi arall. Yn yr un modd, mae llawer o lyfrau defosiynol ar gael ar gyfer oedolion, ac yn gwneud anrhegion delfrydol – gan gynnwys nifer o gyfrolau myfyrdodau 365 diwrnod, sy'n berffaith ar gyfer dechrau blwyddyn newydd.

Nadolig diflanedig? Dyna a welir, beryg – oni bai ein bod ni, fel dilynwy'r Iesu Grist, yn ymdrechu i wneud yn siŵr fod neges y Nadolig yn cael ei gweld a'i chlywed yn ein hardaloedd. Pa wahaniaeth fedrwch chi ei wneud eleni? Pa rai o'r syniadau uchod fedrwch chi a'ch eglwys eu gwireddu?

Cofiwch, drwy'r cwbl, eiriau loan, 'Mae'r golau'n dal i ddisgleirio yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei ddfodd. Daeth y Gair yn berson o gig a gwaed; daeth i fyw yn ein plith ni. Gwelon ni ei ysblander dwyfol – ei ysblander fel Mab unigryw wedi dod oddi wrth y Tad yn llawn haelioni a gwirionedd'.

Aled Davies

Carol Plygain Newydd

Roedd Mair Eluned Davies (1929–2023) yn awdures gynhyrchol iawn. Cyhoeddwyd casgliad sylweddol o'i gwaith, *Cerddi ac Ysgrifau*, dan olygyddiaeth ei mab yng nghyfraith, John Emyr, yn 2001. Meddai'r Prifardd Idris Reynolds yn ei adolygiad o'r gyfrol honno: 'Trwy gyfrwng y gyfrol hardd hon [...] deuthum i'w hadnabod fel gwraig rinweddol a roes oes o wasanaeth i'w theulu, i'w chyd-ddyn ac i'w Christ. Daw ei phersonoliaeth hawddgar i'r golwg fesul tudalen, ac mae ei ffydd yn Nuw yn sail gadarn i'r gyfrol.' Ceir hefyd yn y gyfrol ysgrif hunangofiannol sy'n canolbwyntio'n arbennig ar ei magwraeth yn 'ferch y mans' yn Wallasey, Bae Colwyn a Rhosllannerchrugog, ac ar ei chyfnod yn fyfyrwraig ym Mangor.

Yn 2021, cyhoeddwyd y llyfryn, *Caniadau*, sy'n cynnwys 35 o gerddi ychwanegol ganddi; ond wedi i Mair Davies farw yn Ionawr 2023, daeth rhagor o'i cherddi i'r golwg. Yn eu plith, roedd carol plygain a luniodd yn 2007. Gan fod y mesur yn un eithaf anghyfarwydd, penderfynwyd ei haddasu fel bod modd ei chanu ar y mesur poblogaidd 'Trymder'. Dyma'r garol yn ei ffurf ddiwygiedig:

Distewch, holl gynryfiadau'r byd,
A'r datgan gwaed,
A thrown ein camre at y crud,
Cans yno mae
Y Baban mwyn roes Duw i ni,
A throsto gysgod Calfarî
Oherwydd ein camweddau ni,
Ac E'n ddi-fai.

Fe goncrwyd dychrynfeydd y Fall
Drwy'i eni Ef,
A mawl sy'n esgyn fry'n ddi-ball
I entrych nef.
Fe ddaeth y Mab yn Had y Wraig,
Addawyd gynt i ddryllio'r ddraig,
I'n gosod ninnau ar y graig,
A'n dwyn i dref.

Llawenydd sydd yn nef y nef
Am eni'r Oen;
Mae'n hiachawdwriaeth ynddo Ef,
Drwy'i ddirfawr boen.
Fe gerddodd ar ein daear ni
Heb feddu dim ohoni hi,
Ond bellach Ef yw'n T'wysog fry,
Y Llew llawn hoen.

A phan yn ulw'r elo'r byd,
A'r diwedd fydd
Ar ei ysblander ffals a'i hud,
Pan ddaw y Dydd,
Teyrnasu wna yr Oen bryd hyn,
A'i afael ar Ei blant yn dynn
Trwy'r gwaith gyflawnodd ar y bryn:
Gwaredwr sydd!

Fe gwyd ein Haleliwria fry
I Grist ein Cawr;
Gorfoledd ddaw i'n hysbryd ni
Ar doriad gwawr.
Holl dyrfa'r saint sydd yn gytûn,
A'r cread crwn sydd megis un
Yn moli'r Duwdod yn y dyn –
Ein Ceidwad mawr.

Mair Eluned Davies
(1929–2023)

E. Wyn James

Taro'r Post

Annwyl Olygyddion,

Ar 16 Hydref eleni, fe wnaeth Aelod Seneddol Llafur, Kim Leadbeater, gyflwyno mesur yn Nhŷ'r Cyffredin yn cynnig rhoi'r hawl i bobl sydd â salwch angheuol i ddewis dod â'u bywyd i ben. Y disgwyl yw y bydd yn cynnig rhoi'r hawl i oedolyn sydd â salwch angheuol ac sydd â chwe mis neu lai i fyw i gael cymorth meddygol i farw.

Ym mwletin Undeb Bedyddwyr Cymru a dderbyniais ar 21 Tachwedd, roedd [datganiad](#) gan Gyngor Unedig Undeb Bedyddwyr Cymru yn ein hannog i weddio'n ddwys dros y mater.

Byddwn yn disgwyl i'r Cyngor i'n hannog i weddio, ond byddwn hefyd yn disgwyl i'r Cyngor – a phob enwad Cristnogol – ddatgan llais Duw ar y mater hynod bwysig hwn. Os nad yw'n medru gwneud hyn, onid yw'n deg gofyn beth yw ei ddiben? Onid yw'n profi ei hun yn amherthnasol? Wrth roi datganiad heb fynegi llais Duw, teimlaf fod y Cyngor wedi dewis yr opsiwn rhwydd – 'cop out'.

Mae llawer o ddadleuon yn y byd seciwlar o blaid ac yn erbyn hyn, ond rhaid i Gristnogion edrych ar y mater o bersbectif Duw. Sut allwn wneud hyn? Yn syml iawn – trwy'r Beibl. Dywed datganiad ffydd Undeb y Bedyddwyr, "Mae'r Beibl, Gair Duw, yn gwbl ganolog i'n ffydd a thrwy astudiaeth gyson o'r Ysgrhythurau o dan arweiniad yr Ysbryd Glân cawn dyfu yn ein ffydd fel unigolion a chynulleidfaoedd."

Mae'r Beibl yn rhoi pwys mawr ar sancteiddrwydd bywyd oherwydd Duw sydd wedi ei greu: "Felly dyma Duw yn creu pobl ar ei ddelw ei hun. Yn ddelw ohono'i hun y creodd nhw. Creodd nhw yn wryw ac yn fenyw." (Genesis 1)

Tystia'r salmydd fod bywyd person yn dechrau gyda'r cenedlu, "Ti greodd fy meddwl a'm teimladau; a'm plethu i yng nghroth fy mam." (Salm 139) Er bod bywyd pob creadur yn werthfawr, mae Duw wedi rhoi statws ac urddas unigryw i fywyd pobl.

Mae'r Beibl yn galw marwolaeth yn elyn. Wrth ddisgrifio buddugoliaeth ailddyfodiad Crist, dywed Paul, "A'r gelyn

olaf i gael ei ddinistrio fydd marwolaeth." (1 Corinthiaid 15:16)

Dywed y salmydd, "Does neb byw yn gallu osgoi marw" (Salm 89:48), ond dim ond Duw sydd â'r hawl i ddewis pryd: "Dw i'n gwybod mod i'n mynd i farw, a mynd i'r lle sydd wedi'i bennu i bopeth byw." (Job 30:23) Dylai'r modd ry'n ni'n gofalu am ein bywydau ein hunain ac eraill adlewyrchu hyn. Pan gafodd Israel ddewis rhwng bywyd a marwolaeth, fe ddywedodd Duw, "dewiswch fywyd" (Deuteronomium 30:19). Rhaid i ninnau wneud yr un modd.

Mae profi poen difrifol yn eithriadol o anodd, ac mae'n naturiol gofyn, "Pam?" i Dduw: "Os dw i wedi pechu, beth dw i wedi'i wneud i ti, ti Wyliwr pobl? Pam dewis fi yn darged? Ydw i wedi troi'n gymaint o faich i ti?" (Job 7:20)

Nid oes dim yn rhoi mwy o brawf ar ein ffydd ni na dioddefaint. "Onid ydy Barnwr y byd yn gwneud beth sy'n iawn?" (Genesis 18:25). Ydy, ond mae'n anodd derbyn hynny wrth ddioddef. Mae derbyn geiriau Paul, "Dŷn ni'n gwybod fod Duw'n trefnu popeth er lles y rhai sy'n ei garu – sef y rhai mae wedi'u galw i gyflawni ei fwriadau" (Rhufeiniaid 28:28) yn her anferth weithiau.

Y gwir yw fod Duw, am resymau sydd ddim ond yn hysbys iddo Ef ei hun, weithiau'n gweithio allan ei fwriadau drwy ddioddefaint: "Ystyriwch bopeth mae Duw wedi ei wneud! Pwy sy'n gallu

sythu beth mae e wedi ei blygu? Felly mwynhewch fywyd pan mae pethau'n mynd yn dda; ond pan mae popeth yn mynd o'i le, cofiwch hyn: Duw sydd tu ôl i'r naill a'r llall, felly all neb wybod yn iawn beth fydd yn digwydd yn y dyfodol." (Pregethwr 7:13-14)

Mae Duw yn rhoi pwrpas i fywyd hyd y diwedd, a fe sy'n gwybod beth sydd orau i bawb. Mae ei amseru ef bob amser yn berffaith, ac mae hynny'n cynnwys amseru ein hangau.

Felly, er mor ofnadwy o anodd yw profi dioddefaint ein hunain, a gorfod gweld dioddefaint annwyliaid sydd â thostrowydd angheuol, rhaid gadael amseru diwedd ein taith ddaearol i Dduw, a neb arall. Ein dyletswydd a'n braint yw cario beichiau ein gilydd (Galatiaid 6:2) a rhoi pob gofal i bobl sy'n gorwedd ar wely angau, gan adael i Dduw benderfynu pa anadl fydd yr un olaf. Fel y dywedodd Daniel Ddu o Geredigion, "Duw biau edau bywyd, / a'r hawl i fesur ei hyd".

Felly, beth bynnag am y dadleuon seciwlar o blaid neu yn erbyn cyfreithloni 'Cymorth i Farw', yn ôl y Beibl, Duw yn unig sydd â'r hawl: "Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo Enw yr Arglwydd." (1 Timotheus 6:7)

Yn Ei enw Ef,

Heini Jones

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Cyfarfod Gweddi Cenedlaethol, o'ch cartref, ar Zoom

**Nos Iau
5 Rhagfyr
7.00 yr hwyr i 8.00 yr hwyr**

Am fwy o wybodaeth:
Y Parchg Owen Griffiths
owen.griffiths@ebcpw.cymru
07811727540




Eglwys Bresbyteraidd Cymru: Encil Gweinidogion Aberystwyth, 22–24 Hydref



Y gweinidogion yng nghwmni Arfon Jones



Ymweld ag Amgueddfa Ceredigion yng nghwmni Barbara, ein tywysydd

Croesawyd pump ar hugain i'r Encil Gweinidogion eleni a mwynhawyd y cyfle i ystyried a thrafod y thema 'Canfod Llawenydd yn y Gair'. Bu hefyd yn gyfle i fyfrio, i rwydweithio ac i gymdeithasu. Trefnwyd yr encil gan y Parch. Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parch. Wayne Adams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Adran Gweinidogaethau, a Rhys Bebb Jones, Cydlynnydd Hyfforddiant, gyda chefnogaeth staff Swyddfa EBC yng Nghaerdydd.

Eglwys Dewi Sant oedd y lleoliad ar gyfer y cyflwyniadau, a'r prif siaradwr gwadd eleni oedd y Parch. Ddr Arfon Jones, sy'n fwyaf adnabyddus am ei waith arwrol yn cynhyrchu beibl.net. Cawsom daith ddifyr a dadlennol ganddo, a chyfeiriodd at y dylanwadau sydd wedi llywio llwybr ei fywyd, yn cynnwys derbyn copi o Feibl William Morgan gan ei rieni yn ddeunaw oed a dylanwad sawl gweinidog, megis y Parch. Arthur Jones.

Cyfeiriodd at wahanol rannau o'r Beibl sydd o gymorth i ddeall ei bwrpas, megis bod y Gair yn cynnig goleuni (Salm 119:105), yn weddi (Actau 8:26–32) ac yn gynhaliath (1 Pedr 2:2). Soniodd hefyd am werth hermeniwtg, neu esboniadaeth, sef y gelfyddyd o ddehongli'r Beibl, ac at sawl ffynhonnell allai fod yn ddefnyddiol i bori, dysgu a deall ychwaneg am y Gair. Cyfeiriodd hefyd at y ddiweddar Rachel Held Evans (1981–2011) a'i dylanwad, gan ddyfynnu'n helaeth o'i gwaith, er enghraifft: 'I have come to regard with some suspicion those who claim that the Bible never troubles them. I can only assume this means they haven't actually read it.'

Ysgogodd ei gyflwyniad nifer o sylwadau a thrafodaeth ddifyr. Daeth â'i gyflwyniad dadlennol a choeth i ben yn dyfynnu o Galatiaid 2:16 a Rhufeiniaid 3:22 a'r pwyslais ar y Gair ac yn bendodol 'Ffydd yn Iesu' a 'Ffyddlondeb i Grist'. Diolchodd Nan i Arfon am fore arbennig, ysbrydoledig ac addysgiadol yn ei gwmni.

Wayne Adams oedd yn gyfrifol am y defosiwn ar y bore Mercher ar y thema 'Llawenydd yn y Sabath'. Cyflwynodd Wayne ddiffiniadau o'r hyn yw'r Sabath gan ei ystyried yn gyfle i breswyllo ac aros yn yr Arglwydd ac yn ddydd gorffwys, sef y Shabbat i'r Iddewon. Mae'n cynnig y cyfle i fyfrio ar agweddau ysbrydol bywyd ac i dreulio amser gydag anwyliaid a theulu. Mae'n ddiwrnod o lawenydd ac yn gyfle i atgyfnerthu yn yr Arglwydd.

Meithrin a chynnal cyfeillgarwch oedd thema Nan yn 'Llawenydd mewn Cymdeithas', ein defosiwn nos Fercher. Ystyriwyd beth yw bod yn gyfeillion yng nghyd-destun y Gair yn y Beibl gan ddyfynnu o Ioan 15 a'r Iesu, 'y wir winwydden', yn gyfaill i bob



Ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol

un ohonom. Cyfeiriodd Nan at Ddiarhebion 17:17 ac 18:24 a bod cyfeillgarwch go iawn yn drysor anhygoel. Dyna'r cyfeillgarwch ddangosodd Iesu tuag at y disgyblion ac at Mair a Martha. Dangosodd Iesu ei gyfeillgarwch yn ddiwahân, hyd yn oed tuag at Jiwddas, wnaeth ei fradychu (Mathew 26:50) a'i gyfeillgarwch eithaf un o'i gariad anhunanol yn ei aberth ar y Groes.

Y Parch W. Bryn Williams, ein Cyfarwyddwr Academaidd, arweiniodd y defosiwn ar y thema 'Llawenydd mewn Gweddi', a chyfeiriodd at y modd y daeth yn Gristion a'r dylanwadau arno, megis y diwinyddion Joy Dawson a Jack Hayward. Eglurodd mor hanfodol yw'r Gair yn ei fywyd a bod darllen y Beibl yn allweddol iddo. Cyfeiriodd at y bendithion o lawenydd a gawn yn y Gair yn y Beibl, mewn emynau ac mewn gweddi. Yr olaf yw'r cyfrwng anoddaf a chyfeiriodd at yr ystafell weddi yn ei gartref yn fangre o ddistawrwydd a llonyddwch i weddio ac ymgysylltu'n llwyr â'r Arglwydd. Eglurodd pa mor bwysig yw gweddio dros eraill iddo a sut bod methu â gwneud hynny'n ei boeni.

Bu cyfle i bob un ohonom yn ein tro weddio dros eraill oedd yn yr encil cyn i Mrs Molly Chua, Mrs Nia Williams, Nan a'r Parch. Anna Jane Evans gloi'r defosiwn yn eu tro gyda gweddïau pwrpasol yn pwysleisio 'Llawenydd mewn Gweddi'. Y Parch. Rebecca Lalbiaksangi gyflwynodd y Weddi Apostolaidd yn yr iaith Mizo, ei mamiaith, a hithau â'i gwreiddiau yn Nhalaith Mizoram, India – diweddglo arbennig iawn i gyflwyniadau defosiynol yr encil.

Trefnwyd hefyd deithiau cerdded i fwynhau Gwarchodfa Natur Penglais, coetir sy'n darparu hafan ar gyfer bywyd gwyllt ac yn fangre heddychlon yng nghanol bwrllwm Aberystwyth. Taith gerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir i'r de o Aberystwyth aeth â bryd eraill, a'r tywydd braf yn golygu y gwelwyd golygfeydd godidog o Fae Ceredigion, i'r gogledd tuag at Ben Llŷn a'r de tuag at sir Benfro.

Roedd pawb yn gytûn i'r encil eleni fod yn un bendithiol, gyda'r cyflwyniadau, y defosiwn a'r cyfle i gymdeithasu yn fodd i'n hadfywio, yn ysbrydol ac yn gorfforol.

Rhys Bebb Jones
Cydlynnydd Hyfforddiant EBC

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol 2024



Dim lle i gysur na llawenydd

I lawer ohonom, y Nadolig yw'r adeg i deulu a ffrindiau ddod at ei gilydd i ddathlu. Ac wrth i ni fwynhau'r cwmni a'r dathlu, mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i ni gofio am deuluoedd sy'n byw trwy wrthdaro ar ôl colli eu hanwyliaid a'u cartrefi. I lawer o'n cymdogion ledled y byd, yn aml does dim lle i gysur na llawenydd pan fyddan nhw wedi gorfod gadael popeth ar ôl er mwyn goroesi.

Yn ystod yr Adfent a'r Nadolig hwn, mae Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar sefyllfa ffoaduriaid yn Ne Sudan, lle mae dros bedair miliwn o bobl heb gartrefi a miloedd yn croesi'r ffin o Sudan bob dydd, i chwilio am loches rhag y rhyfel. Dyma stori Shede.

Roedd Shede yn byw yn ninas El-Daein, yn Darfur, gyda'i gŵr. Mae ganddyn nhw dair merch; mae'r ddwy hynaf wedi tyfu i fyny, a'r un ieuengaf, Saida, yn chwech. Mae ganddyn nhw wyres chwech oed hefyd – Mariem.

Pan rwygodd gwrthdaro drwy Sudan, chwalodd teulu Shede. Lladdwyd ei brodyr ac anafwyd ei nai yn ddifrifol.

O fewn misoedd, roedd Shede yn teimlo nad oedd ganddi ddewis ond ffoi a chwilio am loches yn Ne Sudan. Gyda'i dwy ferch hynaf a'r ddwy ferch fach, gwnaeth Shede y daith drawmatig ar fws i Wersyll Ffoaduriaid Wedweil. Arhosodd ei gŵr ar ôl, a gan nad oes modd cysylltu ag ef, dydyn nhw ddim wedi siarad ers hynny: "Dydw i ddim wedi clywed dim gan fy ngŵr drwy'r rhyfel. Does gen i ddim ffôn. Yn anffodus, does gennym ni mo'r arian i brynu ffôn."

Ar ôl cyrraedd Wedweil, penderfynodd y ddwy ferch hynaf deithio ymhellach. Ond allen nhw ddim gwneud y daith gyda Mariem fach, a chafodd ei gadael ar ôl yng ngofal ei mam-gu: "Pan welodd fy merched pa mor brin oedd y dognau yma yn y gwersyll ac nad oedd unrhyw obaith o ennill cyflog, fe adawon nhw i chwilio am swyddi i gynnal y teulu. Nawr mae fy nwy ferch hynaf yn gweithio mewn bwyty ger glan yr afon. Mae un ohonyn nhw'n gyfrifol am olchi llestri, gweini te a gweini bwyd."

Mae Shede yn byw gyda'r ddwy ferch fach yn lloches Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid yn y gwersyll, gan obeithio y daw heddwch.

Dydy ffoi rhag gwrthdaro ddim yn golygu bod y perygl drosodd i bobl fel Shede a dydy'r penderfyniad i adael ddim yn un hawdd.

Oni bai eu bod yn cael cymorth ariannol, does dim modd i deulu sydd wedi cyrraedd gwersyll brynu bwyd maethlon. Mae plant yn dioddef poenau newyn ac yn dioddef o ddiffyg maeth yn gyflym. Does dim modd prynu meddyginiaeth hanfodol ac mae anhwylderau y gellir eu hatal a rhai cronig yn datblygu'n gyflyrau sy'n peryglu bywyd. Does dim modd prynu pethau fel blancedi, dillad a sebon, ac mae teuluoedd yn cysgu ar lorïau moel yn y llochesi dros dro, sy'n golygu ei bod yn amhosib sicrhau iechyd a hylendid da.

Rhaid i Shede bwyso a mesur yn ofalus ei dognau bwyd ac arian parod, penderfynu faint i'w wario ar anghenion yn syth, a faint i'w gadw i brynu anghenion eraill. Wrth iddi edrych tua'r dyfodol, mae Shede eisiau cynilo i brynu offer coginio. Ar ôl gweithio yn y bwyty yn Sudan, mae Shede yn gwybod y gallai coginio fod yn fodd iddi ennill bywoliaeth.

Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn Ne Sudan ers y 1970au, yn gweithio gydag eglwysi a phartneriaid eraill i hyrwyddo heddwch, ac yn cyflwyno a chefnogi prosiectau sy'n cynnig cyflenwadau achub bywyd, yn hyfforddi hyrwyddwyr cymunedol i atal trais yn erbyn menywod, a chefnogi ffermwyr mewn arferion sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd. Y llynedd, cefnogodd Cymorth Cristnogol a'i bartneriaid dros 43,500 o bobl.

Diolch i gefnogwyr anhygoel Cymorth Cristnogol ledled y Deyrnas Unedig, mae partner Cymorth Cristnogol, Mudiad Datblygu Smile Again Africa, wedi bod yn cyflwyno rhaglen sy'n darparu cymorth ariannol hanfodol i ffoaduriaid yng Ngwersyll Ffoaduriaid Wedweil. Dywedodd James Wani, Cyfarwyddwr Cymorth Cristnogol De Sudan, fod hyn yn achubiaeth i deuluoedd sydd wedi gadael popeth ar ôl er mwyn sicrhau eu bod yn goroesi.

Eglurodd: "Mae cynnig cymorth ariannol yn golygu y gall pobl flaenoriaethu eu hanghenion penodol eu hunain a phenderfynu sut i'w diwallu. Mae'r rhaglen hon yn rhoi dewis, gobaith ac urddas i bobl sydd wedi colli cymaint. Yn ogystal â diwallu eu hanghenion uniongyrchol, mae teuluoedd hefyd yn defnyddio'r cymorth



Lun – Cymorth Cristnogol, David Macharia

ariannol i sefydlu incwm newydd i'w cefnogi yn yr hirdymor."

Y Nadolig hwn, bydd rhoddion o gyngherddau carolau a gwasanaethau arbennig yn helpu i chwyddo'r coffrau ar gyfer prosiectau fel hyn. Gall rhoddion i'r apêl helpu i ddarparu prydau maethlon, meddyginiaeth, blancedi a chyflenwadau hanfodol eraill. Ac yn y tymor hir, bydd yn cefnogi pobl i ddatblygu incwm cynaliadwy ac yn cynyddu eu gallu i ymateb i'r problemau niferus y maen nhw'n eu hwynebu.

Mae gennym amrywiaeth o adnoddau ar gael yn Gymraeg a Saesneg eleni i'ch helpu i rannu stori Shede yn yr eglwys yn ystod yr Adfent a'r Nadolig.

Stori Shede – ffilm fer
Cerdyn Rysait Te Sinamon
9 Llith a Charol
Taflen Weddi'r Adfent
PowerPoint Gwasanaeth Pob Oed
Sgwrs Gwasanaeth Pob Oed
Nodiadau pregeth
Poster

I ddysgu rhagor am gymryd rhan, ewch i www.christianaid.org.uk a chliciwch ar 'Appeals'.

Myfyrdodau ar gyfer Suliau'r Adfent

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth y Parch Jim Clarke ychydig dros fis yn ôl. Bu'n golofnydd rheolaidd yn *Y Goleuad* a *Cenn@d* dros gyfnod maith. Bob blwyddyn byddai Jim hefyd yn pararoi cyfres o fyfyrdodau Adfent a Grawys i'w rhannu gyda'i aelodau a chyfeillion. Ein braint ni yw rhannu gyda darllenwyr *Cenn@d* y gyfres a baratowyd ganddo yn nhymor yr Adfent 2021 dros yr wythnosau nesaf (wedi'i diweddaru lle bo angen). Bendith ar y darllen, a choffa da am un a gyfranodd gymaint i fywyd a thystiolaeth ein heglwysi.

Dilyn y Goleuni
Un gannwyll yn ugeiniau – ugeiniau'n
Gannoedd a'u pabwyrâu
'N filoedd o gannoedd, yn gwau
I'w gilydd yn un golau.

Dic Jones

Adfent 1: Y Seren a'r Deyrnwialen

Y seren a fu'n gennad – iddo Ef,
Rho Dduw, ail ennyniad,
A dyged hon, dirion Dad,
Y cedyrn at y Ceidwad.

Dewi Emrys

- **Darlleniadau:** Numeri 24:12–17; Mathew 2:1–12
- **Carol:** 'O tyred di, Emanwel' (*Caneuon Ffydd*, 432)
- **Myfyrdod**

Pa fendithion a ddaeth i ni yn sgil dyfodiad Crist i'n byd? Pa fendithion sydd ganddo ar gyfer ein calonau heddiw? Wel, dwi am awgrymu fod yr ateb i'w gael mewn adnod yn llyfr Numeri: "Daw seren allan o Jacob, a chyfyd teyrnwialen o Israel" (Numeri 24:17). Ie – seren a theyrnwialen, arweiniad a diogelwch, datguddiad a sofraniaeth. Beth sydd ei angen arnom y dyddiau hyn yn fwy na goleuni yn ein tywyllwch a nerth yn ein gwendid? Pa oleuni all gymharu â gallu Brenin y Brenhinoedd ac Arglwydd yr Arglwyddi?

Dewch at y seren yn gyntaf: pelydr o oleuni oedd y seren – goleuni gobaith. Gwyddom fod Jeremeia wedi llefaru am 'obaith Israel', ac fe ategodd yr Apostol Paul yr un peth o'r carchar yn Rhufain pan ddywedodd, "Dyna'r rheswm, ynteu,

fy mod wedi gofyn am eich gweld a chael ymddiddan â chwi; oherwydd o achos gobaith Israel y mae gennyf y gadwyn hon amdanaf" (Actau 28:20). A dyma'r seren yn aros uwchben Bethlehem gan gyhoeddi, 'Ylwch! Cyflawnwyd gobaith Duw. Ganwyd y Crist! Y mae yma yn eich plith! Gwelwch ei seren!'

Roedd y seren yn symbol o ddatguddiad a goleuni. Oni ddywedodd Eseia, "Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr; y rhai a fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew a gafodd lewyrch golau" (9:2). Wedi geni Ioan Fedyddiwr, daeth ei dad, Sechareias, y gŵr hynod hwnnw oedd yn gwbl hyddysg ym mhroffwydoliaethau meseianaid yr Hen Destament, gan gyhoeddi, "Hyn yw trugaredd calon ein Duw – fe ddaw â'r wawrddydd oddi uchod i'n plith, i lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch cysgod angau, a chyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd" (Luc 1:78–9).

Ar ddechrau Efengyl Ioan clywn y geiriau cyfarwydd, "Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef" (Ioan 1:4–5). Tristwch ein sefyllfa ni heddiw ydyw i'r tywyllwch ddod i deyrnasu gan ei wneud ei hun yn berffaith gysurus yn ein plith – a doedd mo'i angen yma! Daeth y goleuni. Daeth Crist i'n byd! Llewyrchodd y goleuni!

Roedd y seren yn ganolbwynt i bobl; roedd megis *sat nav* nefol i arwain pobl Dduw. Cyn bod sôn am offer, siartiau neu radar, y sêr oedd yn cyfeirio taith pob llong! Roeddynt yn llonydd a sefydlog ac yn ddiwyro, yn union fel y mae Duw yn ffyddlon, yn driw ac yn drugarog.

Ond ai'r seren yw'r unig ffordd o ganfod angor i'n ffydd? Rydym wedi byw drwy dywydd stormus Covid 19 ac mewn sawl man ac aml i addoldy disgynnodd rhyw gefnlen o dywyllwch ac anobaith. Ond gwyddom fod goleuni Duw yn llewyrchu yn y tywyllwch ac yn clymu'r byd yn un teulu gyda'i gilydd. Yn wir, daw'r Nadolig â gobaith, goleuni, arweiniad a ffydd inni!

A beth am y deyrnwialen wedyn? Symbol o awdurdod y breninydoedd ac yn cynrychioli ei awdurdod, ei deyrnasiad, ei ogoniant a'i

ffydd. Dywedir wrthym fod y Nadolig yn gyfnod o lawenydd mawr, ac eto mae'n gyfnod rhyfedd iawn. Roedd gan Herod ofn i rywun geisio herio'i frenhiniaeth, a phan fethodd gael ateb digonol galwodd ynghyd yr ysgrifenyddion a'r prif offeriaid. Y cyfan allen nhw ei wneud oedd ailadrodd hen hen broffwydoliaeth, "Ond ti, Bethlehem Effrata, sy'n fechan i fod ymhlith llwythau Jwda, ohonot ti y daw allan i mi un i fod yn llywodraethwr yn Israel, a'i darddiad yn y gorffennol, mewn dyddiau gynt." (Micha 5:2) Ganed y brenin, do, ac fe gododd teyrnwialen uwchlaw Israel unwaith eto. Cyhoeddwyd fod llywodraeth newydd wedi ei sefydlu, llywodraeth dragwyddol, heb na dechrau na diwedd iddi.

Ac yn olaf, cawn y newyddion fod y Nadolig yn cyhoeddi cyflawniad dyfodiad y deyrnas. Ganed y brenin! Wel, do wir – amser maith yn ôl! Sefydlwyd ei lywodraeth. Mae pob awdurdod i lywodraethu eisoes ganddo, hyd yn oed yn ein dyddiau ni. Ond y mae llawer eto sydd yn ymwrthod â'i deyrnasiad, ac y mae'n rhaid inni gredu, gweddio a gweithio i sicrhau y gwelir dydd yn dod pryd y bydd pob glin yn plygu iddo a phob tafod yn cyffesu Crist yn Dywysog Tangnefedd, yn Frenin y Brenhinoedd ac yn Fab Duw! Tydyn ni ddim yno eto – ond fe ddaw'r dydd.

Mae Duw oll yn oll, yn hollbresennol yn ein hamgylchiadau. Ym merw popeth, a'n methiant rywsut i gwmpasu popeth sy'n digwydd, daw'r Nadolig eleni eto i'n hatgoffa mai Duw sy'n ben, yn sofran ac yn fugail ar ei deyrnas a'i bobl. O na fyddai gennym y llygaid i weld hynny a'r clustiau i glywed ei neges, a'r galon i dderbyn ei gariad a'i nerth.

- **Gweddi** (o'r Llyfr Gweddi Gyffredin)

Deffro ein calonau, erfyniwn arnat, O Arglwydd, i baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodiad dy unig-anedig Fab, fel y bo i ni, â'n meddyliau wedi eu puro drwy ras ei ddyfodiad, allu dy wasanaethu'n ffyddlon holl ddyddiau ein bywyd; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yr awr hon ac yn dragywydd. Amen.

S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol Sul, 8 Rhagfyr, am 7:30yh –

Adfent #2

Rhaglen o garolau a pherfformiadau'r Nadolig wrth nodi Ail Sul yr Adfent. A chawn gyfle i ddsygu am waith elusen Byddin yr Iachawdwriaeth

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr Sul, 8 Rhagfyr, am

7:30yb a 4:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siân Thomas

Oedfa Radio Cymru

Sul, 8 Rhagfyr, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Cass Meurig, y Bala

Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

'Ydy popeth yn iawn?'

Faint ohonom, tybed, fydd yn gadael ein sylwadau ar wefan adborth fel TripAdvisor ambell dro ar ôl ymweld â siop, cwmni neu farchnad ayyb. Byddaf yn gwneud weithiau, ond cyn hynny yn edrych i weld pa fath o sylwadau mae cwsmeriaid eraill wedi eu gadael, a faint o sêr maen nhw wedi eu rhoi. Ceir pethau diddorol yno ymhlith y sylwadau, ond mae patrwm iddynt hefyd. Bydd rhai yn rhoi sylwadau ardderchog a phum seren. Yn anffodus, waeth pa mor dda a chanmoladwy fydd gwasanaeth y sefydliad, mae o leiaf un neu ddau yn gadael neges negyddol ac yn rhoi tipyn llai o sêr. Ydi, mae'r hen ddihareb yn hollol wir: gallwch blesio rhai pobol beth o'r amser, ond fedrwch **byth** blesio pawb **bob** amser!

Arwydd da bob amser yw cael cwestiwn mewn lle bwyta'n gofyn: "Is everything alright?" Dyma'r llefydd mwyaf nodedig, yn fy marn i, oherwydd ei bod yn bwysig ganddynt gynnig y gwasanaeth gorau, ac mae cael gwybod hyn yn cyfrif iddynt. O wybod hyn, medrant newid pethau i fod

yn effeithiol a gwasanaethgar, a gwneud yn well y tro nesaf ac i'r dyfodol, os nad oes ymateb ffafriol.

Fe wyddom hefyd fod gair o gymeradwyaeth yn mynd ymhell ym mhob maes, ac yn gwneud gwahaniaeth mawr. Dyma'r pethau fydd yn denu ac yn ennill mwy o gwsmeriaid ac yn hybu eu llwyddiant! Fel y dywed Solomon am eiriau ac ymateb felly: 'Fel afalau aur ar addurniadau o arian, felly y mae gair a leferir yn ei bryd'. (Diarhebion 25:11)

Anghofiaf fyth edrych ar y llyfr sylwadau ar ôl talu ac ar y ffordd allan o'r Little Chef ym Metws-y-coed, flynyddoedd yn ôl pan oeddwn yn weinidog a'r lle ar ei anterth. Roedd yn lle prysur a phoblogaidd bryd hynny, yn enwedig yn yr haf, ac yn amlwg yn gwneud rhywbeth yn iawn ar y pryd. Wedi edrych i lawr y rhestr, dyma ddod at golofn olaf un cwsmer, a gweld y geiriau mewn llythrennau bras: 'PROPER JOB'. Ia, job werth chweil, y safon yn uchel ac ar ei gorau, a'r cwsmer wedi'i blesio ac yn barod i gyhoeddi ei ganmolaieth a'i ddiolch hefyd!

Petai yna lyfr sylwadau yng nghynteddau ein capeli a'n heglwys yn gofyn yr un cwestiynau, neu fodd o adael sylwadau ar wefan megis TripAdvisor, beth tybed fyddai'r sylw? Beth fyddem ni'n ei gofnodi ein hunain yno ar ein ffordd adref? Beth fyddai ein hymateb ni i'r hyn a gafwyd yn ystod ein hymweliad? A fyddai, tybed, yn debyg i un y cwsmer mawr ei werthfawrogiad yn y Little Chef ers talwm, neu a fyddai'n llai canmolaiethus?

Gofynnaf hyn yn wylaidd fel un fu'n cynnig gwasanaethau, ac yn diolch weithiau nad oedd holiadur neu ffurflen adborth am y gwasanaeth i'w chael yng nghynteddau fy eglwys! Ni fedrwn, bawb ohonom, ond cynnig ein gwasanaeth gorau a gweddio, gobeithio a gadael y canlyniad a'r llwyddiant, y ffrwyth a'r fendith yn nwylo'r Arglwydd Iesu Grist. Ond rhaid peidio bod ag ofn gofyn i'r rhai sy'n derbyn ein gwasanaeth a gofyn i ni ein hunain: 'Ydy popeth yn iawn?'

Iorwerth P. Jones
Rhuthun

Cydnabod gwasanaeth organydd



Mewn gwasanaeth teuluol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, llongyfarchwyd Mrs Catherine Hughes am roi gwasanaeth o 50 mlynedd fel organyddes yng Nghapel Bwlchgwynt, Tregaron. Cyflwynwyd llechen iddi gan ei Gweinidog, y Parchg. Carwyn Arthur, ar gyrraedd y garreg filltir arbennig hon, fel cydnabyddiaeth o'i hymroddiad.

Yn ogystal â hyn cafodd Catherine ei henwebu ar raglen Ifan Jones Evans ar Radio Cymru rai wythnosau yn ôl, wrth iddo chwilio am bobl oedd wedi cyflawni gorchwylion arbennig yn eu hardaloedd. Ac yn ddiweddar gwahoddwyd hi i ymuno ag Ifan ac eraill oedd wedi cael eu henwebu i dreulio prynhawn ar y trêr bach i Bontarfynach. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu yn ystod y Nadolig.

Delyth Rees



Christus Natus Est – Ganwyd Crist!

Dewch i weld dros 200 o bresebau
o Brydain a thramor.

Casglwyd gan Nia a Garth Higginbotham dros y blynyddoedd – rhai bach a mawr, traddodiadol a modern, sy'n ein herio â goleuni stori'r Nadolig

Dydd Sul, 8 Rhagfyr, 2-6 o'r gloch
36, Abbey Road, Llandudno
Darperir mins peis a gwin cynnes

Casgliad at fudiad Cymorth Cristnogol,
elusen sy'n gweithio dros gyfiawnder,
heddwch a gobaith i'r anghofiedig

Diweddariadau i wefannau'r Cyngor Ysgolion Sul

Mae'r gwaith o ddatblygu ein gwefannau'n parhau.

Ar wefan ysgolsul.com mae'r adrannau newydd a ychwanegwyd yn ddiweddar yn cynnwys:

- syniadau a chanllawiau ar sut i weddio gyda phlant
- adran ar ddarlenn y Beibl gyda phlant ac ieuenctid
- gwybodaeth am fedydd, a'r adnoddau cefnogol sydd ar gael
- canllawiau ar gynnal sesiynau derbyn a chonffyrmasiwn, ynghyd â rhestr o adnoddau cefnogol
- adran ar waith y Blynyddoedd Cynnar yn yr eglwys: grwpiau Ti a Fi ayyb, yn cynnwys canllawiau a syniadau.

Ar wefan cristnogaeth.cymru mae adrannau newydd yn cynnwys:

- ffydd a chefn gwlad: rhestr o'r gefnogaeth sydd ar gael gan wahanol fudiadau ac eglwysi
- ffydd a chwaraeon: gwybodaeth am fudiadau sy'n weithgar yn y maes
- newid hinsawdd: gwaith A Rocha a sawl mudiad ac enwad arall sy'n weithgar yn y maes
- byw gyda dementia: cefnogi a chodi ymwybyddiaeth o'r cyflwr o fewn bywyd ein heglwysi
- technoleg yn yr eglwys: syniadau, canllawiau a gwybodaeth am offer ac adnoddau
- cyrsiau cyflwyno'r ffydd: rhestr o'r cyrsiau sydd ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd.

Teledu Cristnogol Cymru - rhan o wefan cristnogaeth.cymru

Mae ein sianel deledu ddigidol yn tyfu i gynnwys y sianeli newydd isod:

- y Plygain (yn yr adran Nadolig): gwasanaethau plygain, hanes, cefndir a ffilmiau plygain, cyfres o sgysiau gan E. Wyn James ac enghreifftiau o bartion yn canu carolau plygain
- podlediadau Cristnogol, gan gynnwys y Cwmni Bach (Undeb Annibynwyr Cymru)
- 'Cwestiwn' ar lein: cwrs archwilio ffydd mewn 6 sesiwn



- cwrs adfent newydd gan yr Eglwys yng Nghymru, yn cynnwys 6 astudiaeth Feiblaidd newydd ar gyfer 2024.

Bellach mae dros 8,000 o eitemau ffilm Cymraeg Cristnogol i'w canfod ar ein sianel deledu.

Ar wefan gair.cymru mae cyfres Clwb plant drwy'r post, sef 63 pecyn o werslyfrau ysgol Sul, ar gael yn ddwyieithog erbyn hyn. Cofiwch fod adnoddau'r Gwir Ffordd hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Ceir hefyd adran o weddïau newydd sy'n dilyn y Llithiadur dros gyfnod o 3 blynedd – dros 500 o weddïau i'w lawrlwytho, yn rhad ac am ddim, yn cynnwys holl Suliau blwyddyn A, B a C.

Adran fywgraffyddol sy'n cynnwys hanes 200 o Gristnogion.

Adran yn cynnwys 30 gwasanaeth ar gymeriad Iesu a 30 gwasanaeth ar natur Duw.

Ar wefan gobaith.cymru mae nifer o ganeuon Cristnogol Cymraeg yn ymddangos yn rheolaidd. Ewch draw i'r wefan ac fe welwch y caneuon diweddaraf ar y dudalen hafan.

Cais am wirfoddolwyr a noddwyr

Mae'r gwaith o gynnal pum gwefan yn gostus – o ran amser ac arian. Os oes 'na gefnogwyr neu noddwyr yn barod i'n cynorthwyo, byddem yn falch o glywed gennych. Mae llawer o gamau gwaith yn y broses o baratoi adnoddau: ysgrifennu a chyfieithu, golygu, cysodi a dylunio, prawffdarllen, gwirio Beiblaidd ayyb, ac mae hynny ym maes print a ffilm. Os oes gennych amser sbâr i'w roi er mwyn ein cynorthwyo ag unrhyw agwedd o'r uchod, byddwn yn hynod falch o glywed gennych.

Aled Davies
aled@ysgolsul.com

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru